# Perswadio

## Dulliau perswadio

**Wyt ti wedi gweld dull anghyffredin o berswadio neu ddylanwadu?**

1. Trafoda y dull hwnnw.
2. Beth am graffiti?
3. Chwilia am ddelweddau o waith yr artist Banksy.




**BETH SYDD YN DYLANWADU ARNON NI?**

**YDYN NI'N CAEL EIN PERSWADIO? SUT?**




## Pŵer Perswadio

**Oes pwerau perswadio yn effeithio ar dy fywyd di?**

- Beth ydy'r pwerau perswadio modern?
- Oes rhywun neu rywbeth yn dylanwadu ar dy fywyd di?
- Wyt ti'n dilyn dylanwadwyr* o gwbl? Pam?
- Pa mor effeithiol ydy dylanwadwyr heddiw?

## Her i ti...

**Rwyt ti am berswadio dy ffrindiau, y gymuned neu arweinwyr y byd i gytuno gyda thi. Gelli:**

- gyflwyno dy ddadleuon ar lafar
- gyflwyno dy ddadleuon ar ffurf ddigidol
- gyflwyno dy ddadleuon ar ffurf ysgrifenedig neu ddyluniadau

**WYT TI'N TEIMLO'N GRYF AM BROBLEM SYDD YN EFFEITHIO AR DY GYMUNED, DY WLAD NEU'R BYD?**

## Geirfa

**Dylanwadwr/wyr:**
Rhywun sydd yn gwneud argraff arnat ti.S. influencer/s

**Gwirfoddoli:**
Gwneud rhywbeth heb gael dy orfodi. S. volunteer

**Propaganda:**
Gwybodaeth, weithiau'n gamarweiniol neu'n anghywir, i berswadio rhywun i gredu mewn barn wleidyddol arbennig. S. propaganda

## Dylanwadwyr

**Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn llawn o ddylanwadwyr. Ond beth maen nhw'n wneud?**

Mae dylanwadwyr yn cael eu talu gan gwmnïau i hysbysebu **nwyddau, profiadau** neu **syniadau.**

Mewn arolwg diweddar roedd **1 o bob 5** plentyn yn dweud eu bod eisiau bod yn ddylanwadwr cyfryngau cymdeithasol.

**PWY SYDD YN DYLANWADU ARNON NI?**

## Y Bluen Wen

Beth oedd pwrpas y Buen Wen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Ymchwilia i'r hanes.

Beth yw dy farn di am y defnydd o'r Bluen Wen?

Darllena fwy...

https://www.library.wales/fileadmin/addysg/Pecyn/Recriwtio/pecyn_Recriwtio.pdf

## Mynd i Ryfel

**Dechrau'r Rhyfel 1914**

Ar ddechrau'r rhyfel, roedd nifer fawr o ddynion ifanc yn ymuno gyda'r fyddin ac yn cael eu perswadio i adael eu teuluoedd. Ond fel roedd y brwydro yn parhau a mwy a mwy o filwyr yn cael eu lladd, roedd llai o bobl yn gwirfoddoli* i ymuno gyda'r fyddin.

**Propaganda Rhyfel**

Oherwydd prinder milwyr roedd yn rhaid perswadio dynion i ymuno. Roedd hynny'n digwydd yn aml ar ffurf propaganda*, a byddai pobl bwysig y cyfnod yn cynnal cyfarfodydd mawr, lle bydden nhw'n areithio. Yn y cyfnod hwn roedd gweinidogion crefyddol yn bobl ddylanwadol. Roedd crefydd yn chwarae rhan fawr ym mywydau pobl.

I gael mwy o bobl i ymuno gyda'r fyddin, yn y diwedd bu'n rhaid cyflwyno conscripsiwn neu orfodaeth filwrol.




**Tra yn yr Ysgwrn edrycha ar luniau bechgyn Trawsfynydd a fu farw yn y Rhyfel Mawr. Edrycha yn arbennig ar eu hoedran pan fuont farw.**

## Cerdd

**Dyma ran o gerdd a ymddangosodd yn Yr Herald Gymraeg 8 Medi 1914.**

**Beth oedd bwriad y gerdd tybed?**

*Beth golli di, fachgen, beth golli di*
*Pan fo'r merched yn chwifio llaw,*
*Gan weiddi 'Hwre!' i'r bechgyn o'r lle*
*Drechasant y gelyn draw?*
*A geisi di weiddi 'Hwre!' gyda hwy?*
*Na?! Ti wridi dan g'wilydd dy hun*
*Pan weli y ferch roes gynt i ti serch*
*Yn d'adael am rywun sy'n ddyn!*



Lloyd George (chwith), a ddaeth yn Brif Weinidog ar Brydain yn 1916, a'r Parchedig John Williams, Brynsiencyn. Roedd y ddau yn bobl ddylanwadol iawn yng Nghymru, gan eu bod yn siarad Cymraeg. Roedden nhw'n gyfrifol am berswadio cannoedd o fechgyn ifanc cefn gwlad Cymru i fynd i ryfel.

Yr Ysgwrn